| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Rhagfyr 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb Refeniw 2014/15** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran pennu cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15. Prif ffocws yr adroddiad hwn yw cymeradwyo ail gam y cynigion arbed ar gyfer 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu diweddariad ar y sefyllfa gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2014/15 ac i gymeradwyo'r cynigion arbedion a restrir yn Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb ar gyfer 2014/15.

Cymeradwyo'r cynigion arbedion a restrir yn Atodiad 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Daw mwyafrif (tua 78%) o gyllid y Cyngor o Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ailddosbarthiad o’r NNDR. Yn 2013/14, y setliad terfynol ar gyfer Sir Ddinbych oedd £150.821m. Darperir gweddill cyllid y cyngor trwy Dreth y Cyngor (£40.7m wedi’i gyllidebu yn 2013/14). Felly mae effaith symudiad ar y setliad yn cael effaith llawer mwy arwyddocaol na symudiadau ar lefelau Treth y Cyngor.

Cyhoeddwyd setliad drafft Llywodraeth Leol i Gymru 2014/15 ar 16 Hydref 2013. Y prif ffigurau yw:

- Gostyngiad ariannol cyfartalog ar draws Cymru o -3.5%
- Sir Ddinbych sydd â’r setliad gwaethaf yng Nghymru ar -4.6%
- Mae mecanwaith amsugno wedi cael ei defnyddio i leihau'r effaith yn 2014/15 ond yn 2015/16 fydd hyn yn cael effaith
- Y ffigur setliad drafft ar gyfer 2014/15 yw £145.080m

Amcangyfrifodd y dadansoddiad cychwynnol o'r Setliad Drafft a'r canlyniadau ar gyfer y cyngor y gallai fod angen arbedion o tua £8.5m. Cymeradwyodd y Cyngor arbedion Cam 1 o £1.7m ym mis Medi. Cynhaliwyd gweithdy i Aelodau

ar 21 Hydref, 2013 lle cyflwynwyd manylion y cynigion arbedion pellach gan ddod i gyfanswm o £4.7m. Mae'r cynigion Cam 2 hyn wedi'u hamgáu fel Atodiad 1. Pan fo cynnig yn cael effaith dros ddwy flynedd, mae'r arbedion a amcangyfrifir ar gyfer 2015/16 yn cael eu hamlygu hefyd. Anfonwyd manylion am yr holl gynigion at bob aelod etholedig ac maent wedi cael eu rhannu gyda staff. Mae'r manylion y tu ôl i bob cynnig wedi'u cynnwys i gyfeirio atynt yn Atodiad 2. Anogwyd yr Aelodau i godi unrhyw faterion neu bryderon am unrhyw un o'r cynigion. Hyd yn hyn, mae'r unig faterion a godwyd wedi bod ynghylch y cynnig i adolygu'r Gwasanaeth Cerdd a Chelfyddydau (arbediad o £52k). Mae ymateb manwl i'r materion a godwyd yn amgaeedig fel Atodiad 3.

Os yw'r arbedion arfaethedig yn Atodiad 1 yn cael eu cytuno, bydd yn golygu y bydd £6.5m (76%) o'r targed wedi cael ei nodi. Bydd y gweddill yn cael ei drafod yn y gweithdy aelodau nesaf (9 Rhagfyr) ac yn dod yn ôl i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Chwefror.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw'r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r cynigion arbedion Cam 2a nodwyd yn Atodiad 1 yn dod i gyfanswm o £4.723m. Daeth arbedion y cytunwyd arnynt yn flaenorol yng Ngham 1 i gyfanswm o £1.736m.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae gwasanaethau unigol yn gyfrifol am gynnal asesiadau o effaith ar eu cynigion arbed a gynhwysir o fewn y gyllideb. Mae AEC cryno yn amgaeedig fel Atodiad 4.

**8. Pa ymgynghoriadau a gafodd eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cafodd cynigion arbedion Cam 2 ar gyfer 2014/15 eu cyflwyno i weithdy aelodau ar 21 Hydref, 2013 ac wedi hynny anfonwyd y manylion tu ôl i bob cynnig at bob aelod. Gwahoddwyd sylwadau oddi wrth aelodau dros y pum wythnos diwethaf. Mae'r cynigion hefyd wedi cael eu rhannu gyda staff. Cyflwynwyd diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb a'r cynigion arbed amgaeedig i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 6 Tachwedd, 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y tair blynedd nesaf yn heriol iawn. Mae llawer o ansicrwydd a chafeatau, ond mae'n amlwg y bydd angen arbedion sylweddol. Bydd gan aelodau etholedig rôl allweddol i'w chwarae wrth benderfynu ar ymateb y cyngor i'r heriau sydd o'n blaenau. Bydd cytuno i'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn golygu y gellir canolbwyntio mwy o ymdrech ar weddill y dasg sydd o'n blaenau i sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gynaliadwy ar gyfer 2014/15 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Bydd cytuno ar y cynigion hyn yn dal i adael bwlch yn y gyllideb o oddeutu £2m yn 2014/15.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hyn yn bosibl y cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu. Bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*.* Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol.